**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

2 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref mewn ymateb i'n hadroddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

Mae gennym rai cwestiynau dilynol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Tachwedd 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

**Cwestiwn 1:** Byddem fel arfer yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru i ddatgan a yw'n derbyn neu'n gwrthod argymhelliad Pwyllgor. Er ei bod yn bosibl canfod bwriad Llywodraeth Cymru o ran rhai argymhellion, nid yw hynny'n bosibl o ran rhai eraill. A fyddech cystal â'n helpu drwy nodi'n glir ar gyfer y cofnod pa argymhellion rydych yn eu derbyn a pha rai nad ydych yn eu derbyn, gan ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol fel y bo angen?

**Cwestiwn 2:** Nid oedd eich ymateb yn mynd i'r afael ag argymhelliad 7 yn uniongyrchol. O ganlyniad, cododd Aelodau'r Pwyllgor hyn ddwywaith yn ystod y ddadl ynghylch cydsyniad deddfwriaethol (paragraffau 346 a 380 o Gofnod y Trafodion) ond ni fanteisiwyd ar y cyfle hwnnw. Felly, byddem yn ddiolchgar pa gallech ddatgan a yw Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod Rhan 1 o'r Bil "yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd".

**Cwestiwn 3:** Roedd eich ymateb cyfunol i argymhellion 12 a 13 yn ystyried y materion yn yr argymhellion hynny mewn termau eang iawn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb manylach, gan roi'r wybodaeth benodol y gofynnwyd amdani yn argymhellion 12 a 13, yn unol â'r dyddiad cau a bennwyd yn argymhelliad 14. Gwelwn fod y materion perthnasol o bwys sylweddol i'r Senedd, nid yn unig oherwydd y pryderon a fynegwch ym mharagraffau 93 i 103 a pharagraff 111 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4).

**Cwestiwn 4:** Rydym yn gofyn am eich cymorth ychwanegol gydag argymhelliad 18, nad ydym yn teimlo ei fod wedi cael ymateb digonol. Nid ydym yn teimlo bod unrhyw rai o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn rhoi lefel briodol o fanylion ynghylch cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau y mae'r Bil hwn, sy'n mynd drwy Senedd y DU, yn eu darparu i Weinidogion Cymru. Nodwn hefyd eich bod yn datgan yn eich ymateb i argymhelliad 18 fod rhagor o fanylion yn cael eu rhoi yn yr ymateb i argymhelliad 22, ond nid yw'r manylion hynny'n amlwg. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ym mhwynt bwled cyntaf argymhelliad 18.

**Cwestiwn 5:** Yng ngoleuni eich ymateb i argymhelliad 18, byddai'n ddefnyddiol deall pam rydych wedi cymryd pwerau i wneud rheoliadau drwy Fil gan Lywodraeth y DU pan nad yw'n ymddangos eto eich bod wedi ystyried sut rydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn neu pryd y byddwch yn eu defnyddio.

**Cwestiwn 6:** Yng ngoleuni eich ymateb i argymhelliad 18, a allwch nodi pryd rydych yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad y cyfeiriwch ato, ac felly pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi ymateb i ail a thrydydd pwyntiau bwled argymhelliad 18?

**Cwestiwn 7:** Nid yw argymhelliad 22 wedi cael ymateb digonol yn ein barn ni, yn enwedig gan nad oedd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol amrywiol yn tracio newidiadau yn rhifau'r cymalau wrth i'r Bil basio drwy Senedd y DU. Felly, a allwch roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani? Dylai'r

wybodaeth fod ar wahân i'r Nodiadau Esboniadol (os caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol) o ystyried nad yw'r Nodiadau hynny'n debygol o sôn am y berthynas â deddfwriaeth bresennol Cymru (megis *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*) ac er mwyn rhoi gwybodaeth agored, dryloyw a hygyrch i'r Senedd a rhanddeiliaid Cymru.

Cwestiwn 8. Yn ystod y ddadl, dywedoch:

> *"Cawsom sgyrsiau hir gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch sut y gallem ni ddiogelu sefyllfa Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gorfod ystyried ein materion arni. Rwy'n fodlon wrth orfod ysgrifennu adroddiad i Senedd y DU sy'n nodi pam mae gennym broblem—oherwydd dyna'r unig reswm pam y bydden nhw'n ei wneud; pe na bai gennym broblem, ni fyddai yna adroddiad o'r fath—byddai'n rhaid iddyn nhw eu hunain fynd trwy broses a fyddai'n gwneud iddyn nhw feddwl pam nad oedden nhw'n gallu edrych ar hynny, ac, wrth gwrs, mae'n amlygu hynny i graffu seneddol. Rwy'n credu ei bod yn debyg y byddem yn gallu* ***datblygu proses debyg*** *yma a fyddai'n ein galluogi i fynegi barn arni. Nid yw'n berffaith, rwy'n cytuno'n llwyr, ond mae'n llawer gwell na lle y dechreuon ni, ac os na wnawn ni hyn, bydd gennym* ***fwlch yn ein deddfwriaeth****, sy'n llawer gwaeth. Rwy'n derbyn ei fod yn gyfaddawd." [Cofnod y Trafodion, paragraff 404, ein pwyslais ni]*

A allech chi roi rhagor o fanylion am y canlynol:

- y "broses debyg" y cyfeiriwch ati a beth allai hynny ei olygu?
- y bwlch penodol yn neddfwriaeth Cymru sydd bellach yn cael ei lenwi?